



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 Rhif 1786 (Cy. 123)

2000 No. 1786 (W. 123)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Rheoliadau Personau Anabl
(Bathodynnau ar gyfer Cerbydau
Modur)(Cymru) 2000**

**The Disabled Persons (Badges for
Motor Vehicles) (Wales)
Regulations 2000**

Nodyn Esboniadol

Explanatory Note

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Diben y Rheoliadau hyn (gyda Rheoliadau cysylltiedig ar Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) yw cyflwyno cyfundrefn bathodynnau glas ar gyfer personau anabl o Gymru fydd yn cael eu derbyn ar draws yr Undeb Ewropeaidd yn lle'r un bresennol sy'n seiliedig ar fathodynnau oren.

Mae rheoliadau tebyg yn cael eu gwneud yn y rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn dilyn Argymhelliad a wnaed ym 1998 gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd.

Yn rheoliad 2 pennir ystyron termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn.

Mae Rheoliad 3 yn dirwyn i ben effaith y rheoliadau blaenorol (Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) 1982) yng Nghymru, heblaw am agweddau trosiannol a ddisgrifir yn y Rheoliad hwn.

Mae Rheoliad 4 yn rhagnodi'r personau hynny y gellir rhoddi bathodyn iddynt, a rheoliad 5 yn rhoi'r hawl i awdurdod lleol hefyd i roi bathodyn i sefydliad.

Rheoliad 6 sy'n pennu'r ffi uchaf y caiff awdurdod lleol ei mynnu (£2.00) ac mae rheoliad 7 yn delio â rhoi bathodyn yn lle un a gollwyd ayb.

Rheoliad 8 sy'n dweud pryd caiff awdurdod lleol roi hysbysiad yn gwrthod rhoi bathodyn a rheoliad 9 pryd y caiff roi hysbysiad yn mynnu bathodyn yn ôl.

The purpose of these Regulations (together with related Regulations dealing with Exemptions for Disabled Persons) is to introduce a system of blue badges for disabled people from Wales that will be valid across the European Union to replace the current orange badge system.

Similar regulations are being made in the other parts of the United Kingdom pursuant to a Recommendation made by the Council of the European Union in 1998.

Regulation 2 specifies the meanings of terms used in these Regulations.

Regulation 3 brings to an end the effect of the previous regulations (Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) Regulations 1982) in Wales, apart from transitional arrangements described in this Regulation.

Regulation 4 prescribes the persons entitled to a badge and regulation 5 gives local authorities the right also to issue a badge to an institution.

Regulation 6 specifies the maximum fee that a local authority can charge (£2.00) and regulation 7 deals with the issue of replacement badges for those that have been lost etc.

Regulation 8 states when a local authority can give notice refusing to issue a badge and regulation 9 when it can give notice requiring one to be returned.

Bydd gan unigolyn neu sefydliad hawl i wneud apêl yn erbyn hysbysiad o'r fath i'r Cynulliad Cenedlaethol. Rhoddir y drefn ar gyfer gwneud hynny yn rheoliad 10.

Rheoliad 11 sy'n rhagnodi ffurf y bathodyn drwy gyfeirio at Atodlen a rheoliad 12 sut y mae'n rhaid ei arddangos.

Yn rheoliadau 13 i 16 disgrifir yr amgylchiadau pryd y ceir arddangos bathodyn.

Bwriedir gwneud rheoliadau pellach fydd yn pennu'r drefn ar gyfer cynnal apeliadau o dan reoliad 10 i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn ymgynghori priodol.

An individual or institution can appeal against such a notice to the National Assembly. The procedure for doing so is given in regulation 10.

Regulation 11 prescribes the form of Badge by reference to a Schedule and regulation 12 prescribes how it must be displayed.

Regulations 13 to 16 describe the circumstances when a badge may be displayed.

It is intended that further regulations be made that will set out the procedure for dealing with appeals under regulation 10 to the National Assembly, following appropriate consultation.

2000 Rhif 1786 (Cy. 123)**2000 No. 1786 (W. 123)****TRAFFIG FFYRDD, CYMRU****ROAD TRAFFIC, WALES**

Rheoliadau Personau Anabl
(Bathodynnau ar gyfer Cerbydau
Modur)(Cymru) 2000

The Disabled Persons (Badges for
Motor Vehicles) (Wales)
Regulations 2000

Wedi'u gwneud 29 Mehefin 2000

Made 29th June 2000

Yn dod i rym 1 Gorffennaf 2000

Coming into force 1st July 2000

TREFN Y RHEOLIADAU**ARRANGEMENT OF REGULATIONS****RHAN I****PART I****Rhagarweiniol****Preliminary**

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Diwygio Rheoliadau 1982 a darpariaethau trosiannol

1. Citation, commencement and application
2. Interpretation
3. Amendment of 1982 Regulations and transitional provisions

RHAN II**PART II****Rhoi bathodynnau, eu parhad a'u diddymu****Issue, duration and revocation of badges**

4. Disgrifiadau o bersonau anabl
5. Bathodynnau sefydliad
6. Ffi am roi bathodyn a chyfnod y rhoi
7. Bathodynnau yn lle rhai a gollwyd ayb.
8. Seiliau dros wrthod rhoi bathodyn
9. Dychwelyd bathodyn i'r awdurdod rhoi
10. Apelau

4. Descriptions of disabled persons
5. Institutional badges
6. Fee for issue and period of issue of a badge
7. Replacement of badges that have been lost etc.
8. Grounds for refusal to issue a badge
9. Return of badge to issuing authority
10. Appeals

RHAN III**PART III****Ffurf Bathodynnau a'u Harddangos****Form and Display of Badges**

11. Ffurf bathodynnau
12. Y modd y mae bathodyn i gael ei arddangos
13. Arddangos bathodyn unigolyn pan fydd cerbyd yn cael ei yrru
14. Arddangos bathodyn unigolyn pan fydd

11. Form of badges
12. Manner in which a badge is to be displayed
13. Display of an individual's badge when a vehicle is being driven
14. Display of an individual's badge when a

cerbyd wedi ei barcio

15. Arddangos bathodyn sefydliad pan fydd cerbyd yn cael ei yrru

16. Arddangos bathodyn sefydliad pan fydd cerbyd wedi ei barcio.

YR ATODLEN

Rhan I Ffurff bathodyn unigolyn

Rhan II Ffurff bathodyn sefydliad

Rhan III Manylebau bathodyn

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 (a) a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol (b) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, ac wedi ymgynghori â Chyngor y Tribwnlysoedd yn unol ag adran 21(7E) o'r Ddeddf honno, trwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

RHAN I RHAGARWEINIOL

Enwi, cychwyn a chymhwysio

1.(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "awdurdod rhoi" ("*issuing authority*"), mewn perthynas â bathodyn person anabl, yw'r awdurdod lleol a roddodd y bathodyn;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*"), yn ddarostyngedig i baragraff (6) isod, yw bathodyn ar y ffurf a ragnodir gan reoliad 11, ac a roddir gan awdurdod lleol er mwyn ei arddangos ar gerbyd modur a yrrir gan berson anabl neu i gario person anabl, ac mae'n cynnwys bathodyn yn lle un a gollwyd ayb. a roddir yn unol â rheoliad 7;

(a) 1970 p.44; diwygiwyd adran 21 gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70), Atodlen 30; Deddf Llywodraeth Leol (Yr Alban) 1973 (p.65), Atodlen 14; Deddf Trafnidiaeth 1982 (p.49), adran 68; Deddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 (p.27), Atodlen13, paragraff 11; Deddf Llywodraeth Leol 1985 (p.51), Atodlen 5; Deddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40), adran 35, Atodlen 8; Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19), Atodlen 10, paragraff 8; a Deddf Llywodraeth Leol ayb. (Yr Alban) 1994 (p.39), Atodlen13, paragraff 86.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau)1999 (O.S. 1999/672).

vehicle has been parked

15. Display of an institutional badge when a vehicle is being driven

16. Display of an institutional badge when a vehicle has been parked

THE SCHEDULE

Part I Form of individual's badge

Part II Form of institutional badge

Part III Specifications for badge

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by section 21 of the Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970 (a) and now vested in the National Assembly (b) and of all other powers enabling it in that behalf, and after consultation with the Council on Tribunals in accordance with section 21(7E) of that Act, hereby makes the following Regulations:-

PART I PRELIMINARY

Citation, commencement and extent

1.(1) These Regulations may be cited as the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 1st July 2000.

(2) These Regulations apply to Wales.

Interpretation

2.-(1) In these Regulations -

"the 1970 Act" ("*Deddf 1970*") means the Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970;

"the 1982 Regulations" ("*Rheoliadau 1982*") has the meaning given by regulation 3(1) below;

"the 1984 Act" ("*Deddf 1984*") means the Road Traffic Regulation Act 1984 (a);

"disabled person" ("*person anabl*") means a person more than two years old and who corresponds to at least one of the prescribed descriptions in regulation 4(2);

(a) 1970 c.44; section 21 was amended by the Local Government Act 1972 (c.70), Schedule 30; the Local Government (Scotland) Act 1973 (c.65), Schedule 14; the Transport Act 1982 (c.49), section 68; the Road Traffic Regulation Act 1984 (c.27), Schedule 13, paragraph 11; the Local Government Act 1985 (c.51), Schedule 5; the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 35, Schedule 8; the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19), Schedule 10, paragraph 8; and the Local Government etc (Scotland) Act 1994 (c.39), Schedule 13, paragraph 86.

(b) See National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

ystyr “bathodyn sefydliad” (“*institutional badge*”) yw bathodyn person anabl a roddir i sefydliad;

ystyr “bathodyn unigolyn” (“*individual’s badge*”) yw bathodyn person anabl a roddir i berson anabl unigol;

ystyr “consesiwn person anabl” (“*disabled person’s concession*”) yw’r ystyr a roddir gan adran 117(3) o Ddeddf 1984;

ystyr “deiliad” (“*holder*”), mewn perthynas â bathodyn person anabl, yw’r unigolyn neu’r sefydliad y rhoddwyd y bathodyn person anabl iddo;

ystyr “Deddf 1970” (“*the 1970 Act*”) yw Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970;

ystyr “Deddf 1984” (“*the 1984 Act*”) yw Deddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 (a);

ystyr “person anabl” (“*disabled person*”) yw person dros ddwy flwydd oed sydd yn cyfateb ag o leiaf un o’r disgrifiadau a ragnodir yn rheoliad 4(2);

ystyr “Rheoliadau 1982” (“*the 1982 Regulations*”) yw’r ystyr a roddir gan reoliad 3(1) isod; ac

ystyr “sefydliad” (“*institution*”) yw sefydliad sy’n ymwneud â gofalu am bersonau anabl y gellir rhoi bathodyn person anabl iddo yn unol ag adran 21(4) o Ddeddf 1970.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at orchymyn wedi’i wneud o dan unrhyw ddarpariaeth o Ddeddf 1984 yn gyfeiriad at orchymyn wedi’i wneud, neu sydd ag effaith fel petai wedi’i wneud, o dan y ddarpariaeth honno, gan gynnwys gorchymyn sy’n amrywio neu’n diddymu gorchymyn wedi’i wneud, neu sydd ag effaith fel petai wedi’i wneud o dan y Ddeddf honno.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “collfarn berthnasol” (“*relevant conviction*”) yw

- (a) unrhyw gollfarn yn erbyn -
 - (i) deiliad bathodyn person anabl; neu
 - (ii) unrhyw berson arall a ddefnyddiodd fathodyn o’r fath gyda chydysniad y deiliad;

o dramgwydd a bennir ym mharagraff (4); neu

- (b) unrhyw gollfarn yn erbyn person heblaw deiliad bathodyn person anabl am dramgwydd o dan adran 117(1) o Ddeddf 1984 pan arddangoswyd bathodyn ar y cerbyd gyda chydysniad y deiliad ar unrhyw adeg tra oedd y dramgwydd yn cael ei chyflawni.

(4) Y tramgwyddau a grybwyllwyd ym mharagraff (3)(a) uchod yw -

“disabled person’s badge” (“*bathodyn person anabl*”) means, subject to paragraph (6) below, a badge in the form prescribed by regulation 11 and issued by a local authority for display on a motor vehicle driven by a disabled person, or to carry a disabled person and includes a replacement badge for one that was lost etc. issued in accordance with regulation 7;

“disabled person’s concession” (“*consesiwn person anabl*”) has the meaning given by section 117(3) of the 1984 Act;

“holder” (“*deiliad*”) in relation to a disabled person’s badge, means the individual or institution to whom a disabled person’s badge was issued;

“individual’s badge” (“*bathodyn unigolyn*”) means a disabled person’s badge issued to an individual disabled person;

“institution” (“*sefydliad*”) means an institution concerned with the care of disabled persons to which a disabled person’s badge may be issued in accordance with section 21(4) of the 1970 Act,

“institutional badge” (“*bathodyn sefydliad*”) means a disabled person’s badge issued to an institution;

“issuing authority” (“*awdurdod rhoi*”), in relation to a disabled person’s badge, means the local authority which issued the badge; and

“local authority” (“*awdurdod lleol*”) means a county council or county borough council.

(2) In these Regulations a reference to an order made under any provision of the 1984 Act is to an order made, or having effect as if made, under that provision, including an order varying or revoking an order made or having effect as if made under that Act.

(3) In these Regulations “relevant conviction” (“*collfarn berthnasol*”) means

- (a) any conviction of -
 - (i) the holder of a disabled person’s badge; or
 - (ii) any other person using such a badge with the holder’s consent,

for an offence specified in paragraph (4); or

- (b) any conviction of a person other than the holder of a disabled person’s badge of an offence under section 117(1) of the 1984 Act where the badge was displayed on the vehicle with the consent of the holder at any time during which the offence was being committed.

(4) The offences mentioned in paragraph (3)(a) above are-

(a) 1984 p.27.

(a) 1984 c.27.

(a) unrhyw dramgwydd o dan adrannau 5, 8, 11 neu 16(1) o Ddeddf 1984 i'r graddau y mae'n ymwneud â thorri neu beidio â chydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth mewn gorchymyn wedi'i wneud o dan adrannau 1, 6, 9 neu 14 o'r Ddeddf honno-

(i) sy'n gwahardd neu'n cyfyngu ar aros gan gerbydau ar unrhyw ffordd neu ran o ffordd; neu

(ii) sy'n ymwneud ag unrhyw faterion a grybwyllwyd ym mharagraff 7 neu 8 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno; neu

(b) unrhyw dramgwydd o dan adrannau 35A(1) a (2), 47(1), 53(5), 53(6) neu 117(1) o'r Deddf honno.

(5) Rhaid i unrhyw hysbysiad a roddir o dan y Rheoliadau hyn fod yn ysgrifenedig.

(6) At ddibenion rheoliadau 12 i 16 bydd diffiniad "bathodyn person anabl" ym mharagraff (1) uchod yn cynnwys bathodyn a roddwyd o dan reoliadau sy'n effeithiol yn Lloegr neu'r Alban o dan adran 21 o Ddeddf 1970.

Diddymu Rheoliadau 1982 a darpariaethau trosiannol

3.-(1) Diddymir Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) 1982 (a) (a elwir yn y Rheoliadau hyn "Rheoliadau 1982).

(2) Heb ragfarn i adran 17 o Ddeddf Dehongli 1978 (b)

(a) bydd unrhyw gais i awdurdod lleol, o dan Reoliadau 1982 neu unrhyw beth arall wedi'i wneud cyn i'r Rheoliadau hyn ddod yn effeithiol gan awdurdod lleol yng Nghymru neu mewn perthynas ag ef o dan y Rheoliadau hynny yn effeithiol fel petai wedi ei wneud neu wedi ei gyflawni o dan y darpariaethau cyfatebol yn y Rheoliadau hyn a gellir ei barhau yn yr un modd;

(b) bydd unrhyw fathodyn a roddwyd gan awdurdod lleol yng Nghymru o dan Reoliadau 1982 yn effeithiol fel petai wedi ei roi o dan y Rheoliadau hyn a bydd yn parhau mewn grym

(i) nes y digwydd un o'r pethau a bennir yn rheoliad 9(1) neu y rhoddir hysbysiad yn unol â rheoliad 9(2); neu

(ii) nes rhoi bathodyn yn lle un arall yn unol â rheoliad 7.

(3) Bydd unrhyw orchymyn wedi'i wneud o dan Ddeddf 1984 sy'n cyfeirio at fathodyn person anabl,

(a) O.S. 1982/1740, a ddiwygiwyd gan O.S. 1991/2708 a 1992/200. Nid yw'r Rheoliadau hyn bellach yn gymwys yn Lloegr yn rhinwedd Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Lloegr) 2000 (O.S. 2000/682) nac yn yr Alban yn rhinwedd Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Yr Alban) 2000 (O.S.A. 2000/59).

(b) 1978 p.30.

(a) any offence under sections 5, 8, 11 or 16(1) of the 1984 Act so far as it relates to any contravention of or failure to comply with any provision of an order made under sections 1, 6, 9 or 14 of that Act -

(i) prohibiting or restricting the waiting of vehicles on any road or part of a road; or

(ii) relating to any of the matters mentioned in paragraph 7 or 8 of Schedule 1 to that Act; or

(b) any offence under sections 35A(1) and (2), 47(1), 53(5), 53(6) or 117(1) of that Act.

(5) Any notice given under these Regulations shall be in writing.

(6) For the purposes of regulations 12 to 16 the definition of "disabled person's badge" in paragraph (1) above shall include a badge issued under regulations having effect in England or Scotland under section 21 of the Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970.

Revocation of 1982 Regulations and transitional provisions

3.-(1) The Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) Regulations 1982 (a) (in these Regulations called "the 1982 Regulations"), are revoked.

(2) Without prejudice to section 17 of the Interpretation Act 1978 (b)

(a) any application made to a local authority or other thing done under the 1982 Regulations before the coming into force of these Regulations by or in relation to a local authority in Wales shall have effect as if made or done, and may be continued under the corresponding provision of these Regulations;

(b) any badge issued by a local authority in Wales under the 1982 Regulations shall have effect as if issued under these Regulations and shall remain in force until

(i) the happening of an event specified in regulation 9(1) or the giving of a notice in accordance with regulation 9(2); or

(ii) the issue of a replacement in accordance with regulation 7.

(3) Any order made under the 1984 Act which refers to a disabled person's badge shall, in relation to

(a) S.I. 1982/1740, amended by S.I. 1991/2708 and 1992/200. These Regulations no longer apply in England by virtue of the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (England) Regulations 2000 (S.I. 2000/682) or in Scotland by virtue of the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Scotland) Regulations 2000 (S.S.I. 2000/59).

(b) 1978 c.30.

mewn perthynas ag unrhyw amserau ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, yn effeithiol fel petai'r cyfeiriad yn cynnwys cyfeiriad at fathodyn a roddwyd, neu yn effeithiol fel petai wedi ei roi, yn unol â'r Rheoliadau hyn.

RHAN II

RHOI BATHODYNNAU, EU PARHAD, A'U DIDDYMU

Disgrifiadau o bersonau anabl

4.-(1) Y disgrifiadau rhagnodedig o berson anabl y gall awdurdod lleol roi bathodyn person anabl iddo yw person dros ddwy flwydd oed sydd yn cyfateb ag un neu fwy o'r disgrifiadau a bennir ym mharagraff (2).

- (2) Y disgrifiadau yw person sydd -
- (a) yn derbyn y cyfradd uwch o gydran symudedd y lwfans byw i'r anabl yn unol ag adran 73 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 (a);
 - (b) yn defnyddio cerbyd modur a ddarparwyd gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol neu Weithrediaeth yr Alban neu sy'n derbyn grant yn unol ag adran 5(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (b) neu adran 46 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (yr Alban) 1978 (c);
 - (c) wedi'i gofrestru'n ddall o dan adran 29(4)(g) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (ch) neu, yn yr Alban, sydd yn berson dall o fewn ystyr adran 64(1) o'r Deddf honno;
 - (ch) yn derbyn atodiad symudedd o dan erthygl 26A o Orchymyn Pensiynau Gwasanaeth y Lluoedd Morwrol, Milwrol ac Awyrol ayb. (Anabledd a Marwolaeth) 1983 (a) gan gynnwys unrhyw atodiad yn rhinwedd unrhyw gynllun neu orchymyn o dan erthygl 25A o Gynllun Anafiadau Personol (Gweithwyr Sifil) 1983 (b);
 - (d) yn gyrru cerbydau modur yn rheolaidd; sydd ag anabledd difrifol i'w ddwy fraich a heb allu defnyddio'i ddwylo i droi llyw cerbyd modur hyd yn oed os oes nobyn troi wedi'i ffitio i'r llyw; neu

times falling after the coming into force of these Regulations, have effect as if the reference included a reference to a badge issued, or having effect as if issued, in accordance with these Regulations.

PART II

ISSUE, DURATION AND REVOCATION OF BADGES

Descriptions of disabled persons

4.-(1) The prescribed descriptions of a disabled person to whom a local authority may issue a disabled person's badge are a person who is more than two years old who fits one or more of the descriptions specified in paragraph (2).

- (2) The descriptions are a person who -
- (a) receives a higher rate of the mobility component of the disability living allowance in accordance with section 73 of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992 (a);
 - (b) uses a motor vehicle supplied by the Department of Social Security or the Scottish Executive or is in receipt of a grant pursuant to section 5(2)(a) of the National Health Service Act 1977 (b) or section 46 of the National Health Service (Scotland) Act 1978 (c);
 - (c) is registered as blind under section 29(4)(g) of the National Assistance Act 1948 (d) or, in Scotland, is a blind person within the meaning of section 64(1) of that Act;
 - (d) receives a mobility supplement under article 26A of the Naval, Military and Air Forces etc. (Disablement and Death) Service Pensions Order 1983 (a) including such a supplement by virtue of any scheme or order under article 25A of the Personal Injuries (Civilians) Scheme 1983 (b);
 - (e) drives motor vehicles regularly, has a severe disability in both upper limbs and is unable to turn by hand the steering wheel of a motor vehicle even if that wheel is fitted with a turning knob; or

(a) 1992 p.4.

(b) 1977 p.49.

(c) 1978 p.29.

(ch) 1948 p.29.

(a) 1992 c.4.

(b) 1977 c.49.

(c) 1978 c.29.

(d) 1948 c.29.

(dd) ag anabledd parhaol a sylweddol sy'n achosi anallu i gerdded neu anhawster cerdded sylweddol iawn.

Bathodynau sefydliad

5. Caiff awdurdod roi bathodyn sefydliad i sefydliad ar gyfer cerbyd modur pan fydd y cerbyd i'w ddefnyddio i gario personau anabl fel y'i pennir yn rheoliad 4(2).

Ffi am roi bathodyn a chyfnod y rhoi

6. -(1) Ni chaiff awdurdod lleol godi ffi o fwy na £2 am roi bathodyn person anabl.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliadau 7(2) a 9, rhoddir bathodyn person anabl am gyfnod o dair blynedd yn dechrau gyda'r dyddiad rhoi.

Bathodynau yn lle rhai a gollwyd ayb

7.-(1) Pan fydd bathodyn person anabl ("y bathodyn gwreiddiol") wedi ei gollu, wedi ei ddwyn neu wedi ei ddiinstrio, neu wedi ei ddifrodi neu wedi colli ei liw gymaint fel nad yw'n ddigon ddarllenadwy pan arddangosir ef ar gerbyd modur, gellir rhoi bathodyn yn lle hwnnw gyda'r gair "dyblygiad" wedi ei farcio ar ei flaen.

(2) Bydd bathodyn yn lle un arall yn ddilys o'r dyddiad y'i rhoddir hyd nes y byddai'r bathodyn gwreiddiol wedi peidio â bod yn ddilys.

Seiliau dros wrthod rhoi bathodyn

8.-(1) Gall awdurdod lleol wrthod rhoi bathodyn ar unrhyw un o'r seiliau â bennir ym mharagraff (2).

(2) Y seiliau yw -

(a) bod y ceisydd yn dal neu wedi dal bathodyn a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn neu o dan Reoliadau 1982 a bod camddefnydd wedi arwain at o leiaf dair collfarn berthnasol;

(b) bod y ceisydd yn methu â rhoi i'r awdurdod lleol dystiolaeth ddigonol -

(i) yn achos unigolyn, ei fod yn berson sy'n cyfateb ag un neu fwy o'r disgrifiadau a ragnodwyd gan reoliad 4;

(ii) yn achos sefydliad, ei fod yn sefydliad sy'n gymwys i wneud cais am fathodyn person anabl yn unol â rheoliad 5;

(a) O.S. 1983/883, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1983/1116 ac 1121, 1984/1154 ac 1687, 1985/1201, 1986/592, 1988/248 a 2248, 1989/156, 1990/250 ac 1308, 1991/766, 1992/710 a 3208, 1993/598, 1994/772 ac 1906, 1995/766, 1996/732, 1638 a 2282, ac 1997/286.

(b) O.S. 1983/686, a ddiwygiwyd gan O.S. 1983/1164 ac 1540, 1984/1289 ac 1675, 1985/1313, 1986/628, 1987/191, 1988/367 a 2260, 1989/415, 1990/535 ac 1300, 1991/708, 1992/702 a 3226, 1993/480, 1994/715 a 2021, 1996/445 a 502, 1997/812, ac 1998/278.

(f) has a permanent and substantial disability which causes inability to walk or very considerable difficulty in walking.

Institutional badges

5. An institutional badge may be issued by an authority to an institution for a motor vehicle when the vehicle is to be used to carry disabled persons as specified in regulation 4(2).

Fee for issue and period of issue of a badge

6.-(1) A local authority may not charge a fee of more than £2 for the issue of a disabled person's badge.

(2) Subject to regulations 7(2) and 9, a disabled person's badge shall be issued for a period of three years beginning with the date of issue.

Replacement of badges that have been lost etc

7.-(1) When a disabled person's badge ("the original badge") has been lost, stolen or destroyed, or become so damaged or faded as no longer to be adequately legible when displayed on a motor vehicle, a badge may be issued in its place with the word "duplicate" marked on the front.

(2) A replacement badge shall be valid from the date of issue until such time as the original badge would have ceased to be valid.

Grounds for refusal to issue a badge

8.-(1) A local authority may refuse to issue a badge on any of the grounds specified in paragraph (2).

(2) The grounds are -

(a) the applicant holds or has held a badge issued under these Regulations or under the 1982 Regulations and misuse has led to at least three relevant convictions;

(b) the applicant fails to provide the local authority with adequate evidence-

(i) in the case of an individual, that he or she is a person who fits one or more of the descriptions prescribed by regulation 4; or

(ii) in the case of an institution, that it is an institution eligible to apply for a disabled

(a) S.I. 1983/883, as amended by S.I. 1983/1116 and 1121, 1984/1154 and 1687, 1985/1201, 1986/592, 1988/248 and 2248, 1989/156, 1990/250 and 1308, 1991/766, 1992/710 and 3208, 1993/598, 1994/772 and 1906, 1995/766, 1996/732, 1638 and 2282, and 1997/286.

(b) S.I. 1983/686, amended by S.I. 1983/1164 and 1540, 1984/1289 and 1675, 1985/1313, 1986/628, 1987/191, 1988/367 and 2260, 1989/415, 1990/535 and 1300, 1991/708, 1992/702 and 3226, 1993/480, 1994/715 and 2021, 1996/445 and 502, 1997/812, and 1998/278.

(c) bod y ceisydd yn methu â thalu'r ffi (os oes un) sy'n daladwy am roi bathodyn; neu

(ch) bod gan yr awdurdod lleol seiliau rhesymol dros gredu -

(i) nad y person a honnir yw'r ceisydd; neu

(ii) y byddai'r ceisydd yn caniatáu i berson arall (na roddwyd y bathodyn iddo) arddangos y bathodyn ar gerbyd modur.

(3) Pan gaiff awdurdod lleol gais am fathodyn person anabl ac yn gwrthod rhoi un, rhaid iddo roi manylion o'r seiliau dros wrthod i'r ceisydd yn yr hysbysiad penderfynu.

Dychwelyd bathodyn i'r awduroed rhoi

9.-(1) Rhaid dychwelyd bathodyn person anabl i'r awdurdod rhoi yn syth pan ddigwydd unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol -

(a) bod y cyfnod y rhoddwyd y bathodyn ar ei gyfer wedi dod i ben;

(b) marwolaeth y deiliad, neu, yn achos bathodyn sefydliad, fod y sefydliad wedi peidio â bod;

(c) bod deiliad y bathodyn wedi peidio â bod yn berson anabl, neu, yn achos bathodyn sefydliad, fod y sefydliad wedi peidio â bod yn gymwys o dan reoliad 5;

(ch) bod bathodyn wedi ei roi o dan reoliad 7 yn lle un a gollwyd neu a ddygwyd a bod y bathodyn gwreiddiol wedi ei ddarganfod neu wedi ei adfer;

(d) bod y bathodyn wedi ei ddifrodi neu wedi colli ei liw gymaint fel nad yw'n eglur ddarllenadwy pan arddangosir ef ar gerbyd modur;

(dd) nad oes ar y deiliad angen y bathodyn mwyach.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaeth rheoliad 10, rhaid dychwelyd bathodyn person anabl i'r awdurdod rhoi o fewn y cyfnod a ragnodwyd, os yw'r awdurdod yn rhoddi hysbysiad i'r deiliad -

(a) yn datgan bod yr awdurdod yn gwrthod caniatáu i'r bathodyn barhau i gael ei ddefnyddio oherwydd bod camddefnydd wedi arwain at gollfarn berthnasol ar o leiaf dri achlysur gan roi manylion y camddefnydd hwnnw; neu

(b) yn datgan bod yr awdurdod wedi'i fodloni bod y bathodyn wedi ei gael drwy anwiredd.

(3) At ddibenion paragraff (2), y cyfnod a ragnodwyd yw -

(a) os na wneir apel yn unol â rheoliad 10, y

person's badge in accordance with regulation 5;

(c) the applicant fails to pay the fee (if any) chargeable for the issue of a badge; or

(d) the local authority has reasonable grounds for believing -

(i) that the applicant is not the person claimed to be; or

(ii) that the applicant would permit another person (to whom the badge was not issued) to display it on a motor vehicle.

(3) When a local authority receives an application for a disabled person's badge and refuses to issue one, it shall give the applicant particulars of the grounds of refusal in its notice of determination.

Return of badge to issuing authority

9.-(1) A disabled person's badge shall be returned to the issuing authority immediately on the occurrence of any of the following -

(a) that the period for which the badge was issued has expired;

(b) the death of the holder or, in the case of an institutional badge, the institution ceasing to exist;

(c) the holder of the badge ceases to be a disabled person or, in the case of an institutional badge, the institution ceases to be eligible under regulation 5;

(d) a replacement badge has been issued under regulation 7 to replace a lost or stolen badge and that badge is subsequently found or recovered;

(e) the badge has become so mutilated or faded as no longer to be clearly legible when displayed on a vehicle;

(f) the badge ceases to be required by the holder.

(2) Subject to the provision of regulation 10, a disabled person's badge shall, within the prescribed period, be returned to the issuing authority if the authority gives to the holder a notice -

(a) stating that the authority refuses to allow the badge to continue in use on account of its misuse leading to at least three relevant convictions and giving particulars for that misuse; or

(b) stating that the authority is satisfied that the badge was obtained by false representation.

(3) For the purposes of paragraph (2) the prescribed period is -

(a) where no appeal is made in accordance with

cyfnod o 28 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y rhoddyd yr hysbysiad o dan baragraff (2) uchod;

(b) os gwneir apêl yn unol â rheoliad 10(1) ac na chaniateir yr apêl, bydd y cyfnod o 28 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoddi hysbysiad o'i benderfyniad ar yr apêl.

(4) Caiff yr awdurdod rhoi gymryd unrhyw gamau sy'n briodol i gael bathodyn person anabl yn ôl y mae'r deiliad yn gorfod ei ddychwelyd yn unol â'r rheoliad hwn.

Apelau

10.-(1) Caiff ceisydd am fathodyn person anabl y gwrthodwyd ei gais ar y sail a bennir yn rheoliad 8(2)(a) neu ddeiliad bathodyn y gofynnwyd iddo ei ddychwelyd yn unol â rheoliad 9(2) apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Gwneir yr apêl drwy hysbysiad a roddir o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau ar ddyddiad rhoi hysbysiad o'r penderfyniad a bydd y weithdrefn a bennir yn narpariaethau canlynol y rheoliad hwn yn gymwys, ac eithrio, os bydd y Cynulliad Cenedlaethol o'r farn bod hynny'n briodol mewn achos penodol, y caiff yntau benderfynu ar apêl er na chydymffurfiwyd â pharagraffau (3) i (5).

(3) Rhaid i hysbysiad yr apêl gael ei ddyddio a'i lofnodi gan yr apelydd (neu gan berson a awdurdodwyd i lofnodi ar ei ran) a rhaid iddo ddatgan seiliau'r apêl.

(4) Rhaid cyflwyno hysbysiad yr apêl i'r Cynulliad Cenedlaethol naill ai drwy ei bostio mewn amlen a dalwyd ymlaen llaw neu drwy ei thraddodi'n bersonol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(5) Pan ddaw'r apêl i law rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol anfon copi ohoni at yr awdurdod lleol yr apelir yn erbyn ei benderfyniad ac, o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau ar ddyddiad yr hysbysiad apêl, rhaid i'r awdurdod lleol anfon at y Cynulliad Cenedlaethol -

(a) copi o'r hysbysiad a roddwyd ganddo i'r apelydd yn unol â rheoliad 8(3) neu 9(2); a

(b) unrhyw sylwadau y mae'n dymuno i'r Cynulliad Cenedlaethol eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar yr apêl.

(6) Caiff yr apelydd wneud sylwadau mewn ymateb i sylwadau'r awdurdod lleol o fewn y cyfnod o 28 diwrnod yn dechrau gyda dyddiad y sylwadau

regulation 10, the period of 28 days beginning with the day on which the notice under paragraph (2) above was issued;

(b) where an appeal is made in accordance with regulation 10(1) and the appeal is not allowed, the period of 28 days beginning with the day on which the National Assembly gives notice of its determination of the appeal.

(4) The issuing authority may take such action as may be appropriate to recover a disabled person's badge which the holder is liable to return in accordance with this regulation.

Appeals

10.-(1) An applicant for a disabled person's badge whose application has been refused on the ground specified in regulation 8(2)(a) or the holder of a badge who has been required to return it in accordance with regulation 9(2) may appeal to the National Assembly against the determination of the local authority in accordance with this regulation.

(2) The appeal shall be made by notice given within the period of 28 days beginning with the date on which the notice of the determination is given and the procedure specified in the following provisions of this regulation shall apply, except that, if the National Assembly considers it appropriate in the circumstances of a particular case, it may determine an appeal even though the provisions of paragraphs (3) to (5) have not been complied with.

(3) The notice of appeal shall be dated and signed by the appellant (or by a person authorised to sign on his or her behalf) and shall state the grounds of appeal.

(4) The notice of appeal shall be served on the National Assembly either by posting it in a prepaid envelope or by delivering it by hand to the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

(5) On receipt of the appeal the National Assembly shall send a copy of it to the local authority against whose determination the appeal is made and, within the period of 28 days beginning with the date of the notice of appeal, the local authority shall send to the National Assembly -

(a) a copy of the notice issued by it to the appellant in accordance with regulation 8(3) or 9(2); and

(b) any representation that it wishes the National Assembly to take into account in determining the appeal.

(6) The appellant may make representations by way of reply to any representations made by the local authority within the period of 28 days beginning with

hynny.

(7) Rhaid i unrhyw sylwadau a wneir gan yr awdurdod lleol neu'r apelydd gael eu harwyddo a'u dyddio a'u hanfon i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y dyddiad sydd arnynt.

(8) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol mewn unrhyw achos penodol roi cyfarwyddiadau yn pennu terfynau amser hwyrach na'r rhai a ragnodir gan y Rheoliadau.

(9) Pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu ar yr apêl rhaid iddo-

(a) hysbysu'r apelydd o'i benderfyniad a'r rhesymau drosto; a

(b) anfon copi o'r hysbysiad at yr awdurdod lleol.

(10) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gwrthod apêl, rhaid i'r apelydd ddychwelyd y bathodyn person anabl i'r awdurdod lleol o fewn yr amser a ragnodir gan reoliad 9(3)(b).

(11) Yn y rheoliad hwn mae cyfeiriadau at sylwadau yn cynnwys cyfeiriad at ddogfennau cefnogol.

RHAN III

FFURF BATHODYNNAU A'U HARDDANGOS

Ffurf Bathodyn

11. Bydd bathodyn person anabl yn y ffurf ragnodedig –

(a) os yw'r blaen a'r cefn yn y ffurf a ddangosir –

(i) yn Rhan I o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn achos bathodyn unigolyn; neu

(ii) yn Rhan II o'r Atodlen yn achos bathodyn sefydliad; a

(b) os yw'r bathodyn yn cydymffurfio â'r manylebau yn Rhan III o'r Atodlen.

Y modd y mae bathodyn i gael ei arddangos

12. At ddibenion adran 21(4A) o Ddeddf 1970, mae bathodyn person anabl yn cael ei arddangos ar gerbyd yn y modd rhagnodedig -

(a) os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos ar ddangosfwrdd neu banel deialau y cerbyd, neu

(b) pan nad oes gan y cerbyd ddangosfwrdd neu banel deialau, os arddangosir y bathodyn mewn lle amlwg ar y cerbyd, fel bod blaen y bathodyn yn eglur ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

the date of those representations.

(7) Any representations made by the local authority or the appellant shall be signed and dated and submitted to the National Assembly on the date they bear.

(8) The National Assembly may in a particular case give directions setting later time limits than those prescribed by the Regulations.

(9) When the National Assembly determines an appeal it shall -

(a) give notice to the appellant of its determination and of the reasons for it; and

(b) send a copy of the notice to the local authority.

(10) If the National Assembly refuses an appeal, the appellant shall return the disabled person's badge to the local authority within the time prescribed by regulation 9(3)(b).

(11) In this regulation references to representations include a reference to supporting documents.

PART III

FORM AND DISPLAY OF BADGES

Form of badge

11. A disabled person's badge is in the prescribed form if -

(a) the front and reverse of the badge are in the form shown -

(i) in Part I of the Schedule to these Regulations in the case of an individual's badge; or

(ii) in Part II of the Schedule in the case of an institutional badge; and

(b) the badge complies with the specifications in Part III of the Schedule.

Manner in which a badge is to be displayed

12. For the purposes of section 21(4A) of the 1970 Act a disabled person's badge is displayed on a vehicle in the prescribed manner if -

(a) the badge is exhibited on the dashboard or fascia of the vehicle, or

(b) where the vehicle is not fitted with a dashboard or fascia, the badge is exhibited in a conspicuous position on the vehicle, so that the front of the badge is clearly legible from the outside of the vehicle.

Arddangos bathodyn unigolyn pan fydd cerbyd yn cael ei yrru

13.-(1) At ddibenion adran 21(4A) o Ddeddf 1970, rhagnodir yn y rheoliad hwn yr amgylchiadau pan y ceir arddangos bathodyn unigolyn ar gerbyd sy'n cael ei yrru.

(2) Ceir arddangos bathodyn unigolyn ar gerbyd tra bydd y deiliad naill ai yn ei yrru neu'n cael ei gario ynddo.

(3) Ceir arddangos bathodyn unigolyn ar gerbyd hefyd-

(a) os yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer casglu'r deiliad ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall;

(b) os yw consesiwn person anabl (ar wahân i gonsesiwn yn ymwneud â pharcio) ar gael i gerbyd sy'n arddangos yn gyfreithlon fathodyn person anabl; ac

(c) y byddai'n anymarferol i'r cerbyd gael ei yrru'n gyfreithlon i'r man lle mae'r deiliad i gael ei gasglu, neu stopio yno, pe na bai'r consesiwn yn gymwys i'r cerbyd.

(4) Ceir arddangos bathodyn unigolyn ar gerbyd -

(a) os yw'r cerbyd, wedi cael ei yrru gan y deiliad neu i'w gario, yn ymadael â'r man lle yr aeth y deiliad o'r cerbyd;

(b) os yw consesiwn person anabl (ar wahân i gonsesiwn yn ymwneud â pharcio) ar gael i gerbyd sy'n arddangos yn gyfreithlon fathodyn person anabl; ac

(c) os byddai'n anymarferol i'r cerbyd gael ei yrru'n gyfreithlon o'r man hwnnw pe na bai'r consesiwn yn gymwys i'r cerbyd.

Arddangos bathodyn unigolyn pan fydd cerbyd wedi ei barcio

14.-(1) At ddibenion adran 21(4A) o Ddeddf 1970, rhagnodir yn y rheoliad hwn yr amgylchiadau pan y ceir arddangos bathodyn unigolyn ar gerbyd sydd wedi ei barcio.

(2) Ceir arddangos bathodyn unigolyn ar gerbyd sydd wedi ei barcio -

(a) os yw'r cerbyd wedi cael ei yrru gan y deiliad, neu i'w gario i'r man lle y parciwyd y cerbyd; neu

(b) os yw'r cerbyd i gael ei yrru gan y deiliad, neu i'w gario o'r man hwnnw.

Display of an individual's badge when a vehicle is being driven

13.-(1) This regulation prescribes for the purposes of section 21(4A) of the 1970 Act the circumstances in which an individual's badge may be displayed while a vehicle is being driven.

(2) An individual's badge may be displayed on a vehicle while the holder is either driving or being carried in it.

(3) An individual's badge may also be displayed on a vehicle -

(a) if the vehicle is being used for the collection of the holder and no other purpose;

(b) if a disabled person's concession (other than a concession relating to parking) is available to a vehicle lawfully displaying a disabled person's badge; and

(c) if it would not be practicable for the vehicle to be lawfully driven to, or to stop at, the place at which the holder is to be collected if the concession did not apply to the vehicle.

(4) An individual's badge may be displayed on a vehicle -

(a) if the vehicle, after being driven by or carrying the holder, is leaving the place where the holder got out;

(b) if a disabled person's concession (other than a concession relating to parking) is available to a vehicle lawfully displaying a disabled person's badge; and

(c) if it would not be practicable for the vehicle to be driven from that place if the concession did not apply to the vehicle.

Display of an individual's badge when a vehicle is parked

14.-(1) This regulation prescribes for the purposes of section 21(4A) of the 1970 Act the circumstances in which an individual's badge may be displayed while a vehicle is parked.

(2) An individual's badge may be displayed on a vehicle while it is parked if it -

(a) has been driven by the holder, or has been used to carry the holder, to the place where it is parked; or

(b) is to be driven by the holder, or is to be used to carry the holder, from that place.

Arddangos bathodyn sefydliad pan fydd cerbyd yn cael ei yrru

15.-(1) At ddibenion adran 21(4A) o Ddeddf 1970, rhagnodir yn y rheoliad hwn yr amgylchiadau pan y ceir arddangos bathodyn sefydliad ar gerbyd sy'n cael ei yrru.

(2) Ceir arddangos bathodyn sefydliad ar gerbyd tra bydd yn cael ei yrru gan neu ar ran y deiliad ac yn cario person anabl.

(3) Ceir arddangos bathodyn sefydliad ar gerbyd hefyd tra bydd yn cael ei yrru gan neu ar ran y deiliad ac -

(a) mae'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer casglu person anabl ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall;

(b) mae consesiwn person anabl (ar wahân i gonsesiwn yn ymwneud â pharcio) ar gael i gerbyd sy'n arddangos yn gyfreithlon fathodyn person anabl; ac

(c) y byddai'n anymarferol i'r cerbyd gael ei yrru'n gyfreithlon i'r man lle mae'r person anabl i gael ei gasglu, neu stopio yno, pe na bai'r consesiwn yn gymwys i'r cerbyd.

(4) Ceir arddangos bathodyn sefydliad ar gerbyd hefyd tra bydd yn cael ei yrru gan neu ar ran y deiliad ac -

(a) mae'r cerbyd, wedi cario person anabl, yn ymadael â'r man lle yr aeth y person anabl o'r cerbyd;

(b) mae consesiwn person anabl (ar wahân i gonsesiwn yn ymwneud â pharcio) ar gael i gerbyd sy'n arddangos yn gyfreithlon fathodyn person anabl; ac

(c) y byddai'n anymarferol i'r cerbyd ymadael â'r man hwnnw pe na bai'r consesiwn yn gymwys i'r cerbyd.

Arddangos bathodyn sefydliad pan fydd cerbyd wedi ei barcio

16.-(1) At ddibenion adran 21(4A) o Ddeddf 1970, rhagnodir yn y rheoliad hwn yr amgylchiadau pan y ceir arddangos bathodyn sefydliad ar gerbyd sydd wedi ei barcio.

(2) Ceir arddangos bathodyn sefydliad ar gerbyd sydd wedi ei barcio os yw wedi ei ddefnyddio neu os yw i gael ei ddefnyddio gan neu ar ran y deiliad, i gario person anabl i'r man lle y parciwyd y cerbyd neu oddi yno.

Display of institutional badge when a vehicle is being driven

15.-(1) This regulation prescribes for the purposes of section 21(4A) of the 1970 Act the circumstances in which an institutional badge may be displayed while a vehicle is being driven.

(2) An institutional badge may be displayed on a vehicle while it is being driven by or on behalf of the holder and is carrying a disabled person.

(3) An institutional badge may also be displayed on a vehicle while it is being driven by or on behalf of the holder and -

(a) the vehicle is being used for the collection of a disabled person and for no other purpose;

(b) a disabled person's concession (other than a concession relating to parking) is available to a vehicle lawfully displaying a disabled person's badge; and

(c) it would not have been practicable for the vehicle to be lawfully driven to or to stop at the place at which the disabled person is to be collected if that concession did not apply to the vehicle.

(4) An institutional badge may also be displayed on a vehicle while it is being driven by or on behalf of the holder and -

(a) the vehicle, after carrying a disabled person, is leaving the place where the disabled person got off;

(b) a disabled person's concession (other than a concession relating to parking) is available to a vehicle lawfully displaying a disabled person's badge; and

(c) it would not have been practicable for the vehicle to have left that place if the concession had not applied to the vehicle.

Display of an institutional badge when a vehicle is parked

16.-(1) This regulation prescribes for the purposes of section 21(4A) of the 1970 Act the circumstances in which an institutional badge may be displayed while a vehicle is parked.

(2) An institutional badge may be displayed on a vehicle while it is parked if it has been, or is to be, used by or on behalf of the holder for carrying a disabled person to or from the place where it is parked.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

29 Mehefin 2000

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998 (a).

29th June 2000

D Elis Thomas

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Presiding Officer National Assembly for Wales

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

THE SCHEDULE (regulation 11)
YR ATODLEN (rheoliad 11)

Part I

Rhan I

FORM OF INSTITUTIONAL BADGE
FFURF BATHODYN SEFYDLIAD

FRONT
BLAEN

Date of expiry: Dyddiad y daw i ben:	Parking Card for people with disabilities Cerdyn Parcio pobl ag anableddau Parkeringskort Κάρτα στάθμευσης Tarjeta de estacionamiento Parkausweis Contrassegno di parcheggio Parkeerkaart Cartão de estacionamento Pysäköintilupa Parkeringstillstånd Carte de stationnement
Issued by: Rhoddwyd gan:	
Serial No: Rhif Cyfresol:	
	
	EUROPEAN COMMUNITIES MODEL MODEL Y CYMUNEDAU EWROPEAIDD

REVERSE
CEFN

<p><i>Photograph of the card holder</i></p> <p><i>Ffotograff deiliad y cerdyn</i></p>	<p>This card entitles the holder to the special local parking facilities available in the Member State concerned. When in use, the card is to be displayed at the front of the vehicle in such a way that the front of the card is clearly visible for checking purposes.</p> <p>Mae'r cerdyn hwn yn rhoi hawl i'r deiliad ddefnyddio'r cyfleusterau parcio lleol arbennig sydd ar gael yn yr Aelod-Wladwriaeth o dan sylw. Wrth ei ddefnyddio, rhaid dangos y cerdyn ym mhen blaen y cerbyd fel bod blaen y cerdyn i'w weld yn glir i gael ei archwilio.</p>	MISUSE OF THIS CARD MAY CONSTITUTE A CRIMINAL OFFENCE GALL CAMDDEFNYDDIO'R CERDYN HWN FOD YN DRAMGWYDD TROSEDDOL
Surname: Cyfenw:		
Forename: Enw blaen:		
Signature: Llofnod: <i>(or other authorised mark)</i> <i>(neu farc awdurdodedig arall)</i>		
		<small>© Crown copyright 2000 Published by The Stationery Office on behalf of The National Assembly for Wales Printed in the UK CP4692 C500 03/00 © Hawlfraint y Goron 2000 Cyhoeddwyd gan y Llyfrfa ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru Argraffwyd yn y DU CP4692 C500 03/00</small>

THE SCHEDULE (regulation 11)
YR ATODLEN (rheoliad 11)

Part II


Rhan II

FORM OF INSTITUTIONAL BADGE
FFURF BATHODYN SEFYDLIAD

FRONT
BLAEN

Date of expiry: Dyddiad y daw i ben:	Parking Card for people with disabilities Cerdyn Parcio pobl ag anableddau Parkeringskort Κάρτα στάθμευσης Tarjeta de estacionamiento Parkausweis Contrassegno di parcheggio Parkeerkaart Cartão de estacionamento Pysäköintilupa Parkeringstillstånd Carte de stationnement	
Issued by: Rhoddyd gan:		
Serial No: Rhif Cyfresol:		
	INSTITUTIONAL BADGE BATHODYN SEFYDLIAD	
		EUROPEAN COMMUNITIES MODEL MODEL Y CYMUNEDAU EWROPEAIDD

REVERSE
CEFN

 <p><i>Stamp or logo of institution</i> <i>Stamp neu logo'r sefydliad</i></p>	<p>This card entitles the holder to the special local parking facilities available in the Member State concerned.</p> <p>When in use, the card is to be displayed at the front of the vehicle in such a way that the front of the card is clearly visible for checking purposes.</p> <p>Mae'r cerdyn hwn yn rhoi hawl i'r deiliad ddefnyddio'r cyfleusterau parcio lleol arbennig sydd ar gael yn yr Aelod-Wladwriaeth o dan sylw.</p> <p>Wrth ei ddefnyddio, rhaid dangos y cerdyn ym mhen blaen y cerbyd fel bod blaen y cerdyn i'w weld yn glir i gael ei archwilio.</p>
	<p>MISUSE OF THIS CARD MAY CONSTITUTE A CRIMINAL OFFENCE</p> <p>GALL CAMDDEFNYDDIO'R CERDYN HWN FOD YN DRAMGWYDD TROSEDDOL</p> <p>Name of institution: Enw'r sefydliad:</p>

© Crown copyright 2000
Published by the Stationery Office on behalf of the National Assembly for Wales
Printed in the UK CP4893 CS0 03/00
© Hawtraint y Goron 2000
Cyhoeddwyd gan y Llyfrfa ar ran Cymelliad Cenedlaethol Cymru
Argraffwyd yn y DU CP4893 CS0 03/00

RHAN III

MANYLION AR GYFER BATHODYN

Rhaid i'r bathodyn fod fel a ganlyn:

106 milimetr o ran uchder;

148 milimetr o ran lled;

rhaid i'r cefndir ar flaen a chefn y bathodyn fod wedi'i liwio'n las golau a rhaid iddo gynnwys cefndir o symbolau cadair olwyn;

rhaid i'r blwch sgwâr sy'n cynnwys symbol y gadair olwyn a'r blwch hirsgwar sy'n cynnwys dynodydd y wlad fod wedi'u lliwio'n las tywyll. Rhaid i bob blwch arall ar y bathodyn fod wedi'u lliwio'n wyn.

PART III

SPECIFICATIONS FOR BADGE

The badge shall be:

106 millimetres in height;

148 millimetres in width;

the background on the front and reverse sides of the badge shall be coloured light blue and shall include a background of wheelchair symbols;

the square box containing the wheelchair symbol and the rectangular box containing the country identifier shall be coloured dark blue. All other boxes on the badge shall be coloured white.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 1786 (Cy. 123)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Personau Anabl
(Bathodynau ar gyfer Cerbydau
Modur)(Cymru) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 1786 (W. 123)

ROAD TRAFFIC, WALES

The Disabled Persons (Badges for
Motor Vehicles) (Wales)
Regulations 2000

©^h Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.


£7.10

W69 10/00 ON

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090127-4



9 780110 901275